| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 28 Hydref 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol |
| **ADRODDIAD GAN:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar faterion a nodwyd yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol |
| **GWEITHREDU:** | Derbyn yr argymhelliad |

1. **Rhagarweiniad**

1.1 Cyflwynwyd newidiadau yn ystod 2010 o ran archwilio ac arolygu i gydymffurfio gyda gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Rhoddwyd gwybod am y rhain i'r aelodau eisoes. Hwn yw'r adroddiad Asesiad Corfforaethol cyntaf i'r awdurdod ac mae'n seiliedig ar waith rheoleiddwyr eraill ac i raddau helaeth ar dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd Adfer.

**Adroddiad gwaith** ydyw yn seiliedig ar asesiad **rhagarweiniol** o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd yr asesiad hwn, ynghyd ag asesiad perfformiad yn penderfynu a yw'r Cyngor wedi cyflawni gwelliannau yr oedd wedi bwriadu ei gwneud, yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer y Cynllun Gwella Blynyddol. Cyhoeddir yr Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Tachwedd ac adroddir arno i'r Cyngor yn Rhagfyr 2010. Mae hwn bellach yn disodli'r Llythyr Rheoli Blynyddol a roddwyd i'r Cyngor.

Mae casgliadau'r Asesiad Corfforaethol yn seiliedig ar asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod i gefnogi gwelliant a materion a nodwyd yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Casglodd yr asesiad cychwynnol:

*Mae llawer o'r sylfaeni wedi eu gosod i roi sylw i wendidau hirsefydlog ond erys amheuaeth ynghylch cynaliadwyedd y gwelliannau; a*

*Mae arweinyddiaeth bendant yn dechrau gwella trefniadau llywodraethu ond erys llawer o waith i'w wneud i weithredu cynlluniau ac wedyn sefydlu'n gadarn drefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer moderneiddio.*

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn ymhelaethu ar y materion allweddol mewn cyflwyniadau ar wahân dan yr eitem hon.

Mae'r asesiad yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed gan y Cyngor o ran ymateb i argymhellion yn yr adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.  Bydd bynnag, dygir sylw at faterion ynghylch cynaliadwyedd yr adferiad ac yn arbennig effaith tensiynau rhwng Cynghorwyr.

Mae negeseuon gan SAC yn adleisio pryderon tebyg a fynegwyd eisoes i'r aelodau gan y Gweinidog yn ei lythyr dyddiedig 30 Mehefin 2010:-

*"But the underlying issues have never gone away.  Council business too often focuses on internal disputes and rivalries rather than on delivering for the citizens of the island. Too many members still prefer jockeying for their own personal advantage rather than serving those who elected them.  As I said to you in February, the people of Anglesey do not care about petty squabbles.  They care about vital services, and about their council providing leadership in these difficult times.  They are still not getting that."*

Er y bydd yr Asesiad Corfforaethol rhagarweiniol hwn yn cael ei ddiweddaru yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, mae'r asesiad hwn wedi nodi nifer o gamau gwella y dylai'r Cyngor eu hystyried (arddangosydd 1, tudalen 6).  O'r herwydd, dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgorau perthnasol i'w hystyried gan gynnwys y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r meysydd hyn yn disgyn o fewn y prosiectau y rhoddir sylw iddynt yn y Rhaglen Adfer fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar 14 Medi 2010.  Argymhellir felly bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyfeirio i Grŵp Llywio'r Adferiad sy'n gyfrifol hefyd am oruchwylio'r rhaglen adfer a rhoi sicrwydd i'r Cyngor y bydd yn cael ei weithredu.

2. **Argymhelliad**

Cyfeirio'r asesiad hwn i'r Pwyllgor perthnasol i'w hystyried a bod Grwp Llywio'r Adferiad yn cael mandad penodol i oruchwylio cynnydd.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth - Polisi**
**ar ran y**
**Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro**
**20/10/10**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 27 Medi 2010
Ein cyf: GB1125/fgb
Tudalen: 1 o 1

Mr David Bowles
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Mr Bowles

**Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'n bleser gennyf amgáu Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Cyngor Sir Ynys Môn sy'n nodi'r casgliadau mewn perthynas â threfniadau corfforaethol y cyngor i gefnogi gwelliant.

Fel y gwyddoch, mae fy nghydweithwyr eisoes wedi trafod y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r gwaith asesu corfforaethol â chi ac rwy'n ddiolchgar am eich sylwadau ar yr adroddiad drafft. Ar hyn o bryd nid wyf yn bwriadu rhoi'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru tan i'r cyngor gyhoeddi'r adroddiad.

Bydd yr ail adroddiad ar yr Asesiad Gwella hwn ar ffurf Adroddiad Gwella Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad hwn, y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd, yn diweddaru'r casgliadau a nodwyd yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol. Bydd hefyd yn rhoi sylwadau ar amcanion gwella'r cyngor a pherfformiad cysylltiedig. Ar yr adeg hon, bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Asesiad Corfforaethol hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Alan Morris, fy nghydweithiwr, yw partner arweiniol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr asesiad hwn a byddai'n fwy na pharod i drafod unrhyw faterion sy'n deillio o'r Asesiad Gwella â chi.

Yn gywir

pp ARMorris.

**GILLIAN BODY**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Mr Clive McGregor, Arweinydd

Llinell Uniongyrchol: 02920 320510 E-bost: Gillian.body@wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol Medi 2010



**Cyf: 491A2010**

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn gan Huw Lloyd Jones (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a John Roberts (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

**Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyriad Gweinidogol, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio'i drefniadau corfforaethol ac i sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau.**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 7

Mae llawer o'r seiliau wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig, ond erys amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd gwelliannau 7

Yn dilyn hanes hir o beidio â chael ei redeg yn briodol, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gyfarwyddyd yn 2009, gan benodi Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i arwain ymateb y Cyngor a Bwrdd Adfer i fonitro ei gydymffurfiaeth 7

Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r agenda ar gyfer newid a osodwyd yn allanol, ac mae'n gosod y seiliau ar gyfer gwella ond erys cryn dipyn o waith i'w gyflawni 8

Mae tensiynau rhwng cynghorwyr yn parhau i ddod i'r amlwg, ac mae'n rhy gynnar i fod yn hyderus y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella mewn modd cynaliadwy 9

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 11

Mae arweinyddiaeth gadarn yn dechrau gwella'r trefniadau llywodraethu, ond erys cryn dipyn o waith i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor 11

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, gyda chefnogaeth y Bwrdd Adfer, yn hybu gwelliannau strwythurol a diwylliannol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor, ond mae'n rhy gynnar i lunio barn ar b'un a fydd y gwelliannau hyn yn gynaliadwy 11

Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda, ar y cyfan, gyda phartneriaid i ddarparu ystod eang o wasanaethau, ond prin yw'r wybodaeth sydd ganddo am gostau a manteision gweithio mewn partneriaeth 13

Nid yw fframwaith polisi a strategaeth y Cyngor yn ddigon clir a chyson eto i gefnogi proses gydlynol o gynllunio staff ac adnoddau, a chyflwyno gwell prosesau busnes 14

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei drefniadau rheoli pobl yn wan ac yn llesteirio gwelliannau, ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater 16

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd.

3 Y nod yw cynnal asesiad o'r sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn ffordd safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull newydd hwn, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol, a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad cynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol '*Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*.' Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Ar ôl cael tystiolaeth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oes dianc o'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio gwariant cyfredol a'r ddarpariaeth gwasanaethau ac ni ellir datrys y diffygion drwy fod yn effeithlon yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cydweithio a chynyddu lefelau comisiynu gwasanaethau yn hytrach na'u darparu'n uniongyrchol. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

'A yw trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'



7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr adroddiad hwn gan fonitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw:

- Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyriad Gweinidogol, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio'i drefniadau corfforaethol ac i sicrhau cynaliadwyedd gwelliannau.

9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- mae nifer o'r seiliau wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig, ond erys amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd gwelliannau;
- mae arweinyddiaeth gadarn yn dechrau gwella'r trefniadau llywodraethu, ond erys cryn dipyn o waith i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor.

## Arolygiad arbennig

10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, ar hyn o bryd, yn bwriadu cynnal Arolygiad Arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur. Fodd bynnag, gall yr Archwilydd Cyffredinol adolygu'r penderfyniad hwn ar unrhyw adeg os ceir tystiolaeth nad yw'r Cyngor yn parhau i wella. Yng ngoleuni'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y dylai'r cyfarwyddyd Gweinidogol presennol barhau mewn grym.

## Argymhellion

11 Roedd Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, yn cynnwys nifer o argymhellion pwysig. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ond erys cryn dipyn o waith i'w wneud i weithredu'r cynlluniau'n llawn. Bydd angen cyfnod wedi hynny er mwyn ymgorffori newidiadau ar draws y Cyngor fel eu bod yn arwain at welliant cynaliadwy. Nid ydym yn ailadrodd yr argymhellion hyn yn yr adroddiad hwn, ond nodwn fod ymateb i'r argymhellion yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol pellach ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur.

## Meysydd i'w gwella

12 Mae ein hasesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu. Nodwn fod Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn cynnwys camau gweithredu a allai fynd i'r afael â rhai o'r meysydd hyn ar gyfer gwella.

### Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C1 Dylai'r Cyngor wella mynediad cyhoeddus i'w drafodion drwy:
- Gyhoeddi'r agenda a'r holl bapurau nad ydynt yn gyfrinachol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau ar ei wefan ymhell ymlaen llaw cyn pob cyfarfod;
- sicrhau y caiff cofnodion pob cyfarfod o'r fath eu cyhoeddi'n ddi-oed.

C2 Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu dull clir o reoli risg yn gyson ar draws pob gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'i drefniadau rheoli perfformiad.

C3 Dylai'r Cyngor, yn unigol a chyda'i bartneriaid, ddiffinio cyfres glir o fesurau er mwyn asesu ei gynnydd yn gadarnach o ran mynd i'r afael â'i amcanion gwella.

C4 Dylai'r Cyngor integreiddio'r defnydd o wybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad yn well er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau.

C5 Er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n cynrychioli'r Cyngor mewn swyddi cyfrifol yn atebol am eu perfformiad, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:
- datblygu system a'i gweithredu'n gyson ar draws pob gwasanaeth ar gyfer arfarnu swyddogion;
- gweithredu'r trefniadau sy'n datblygu ar gyfer arfarnu aelodau etholedig, gan ganolbwyntio'n bennaf ar eu perfformiad o ran cyflawni eu rolau penodol ac yn fwy cyffredinol fel aelodau pwyllgorau.

C6 Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu strategaeth cyn etholiadau 2012 i hysbysu dinasyddion am rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr modern, ac wrth wneud hynny, hybu mwy o amrywiaeth o fewn y Cyngor.



# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae llawer o'r seiliau wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r gwendidau hirsefydledig, ond erys amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd gwelliannau

**13** Gwnaed cynnydd sylweddol ers cyhoeddi adroddiad yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2009 o ran gwella effeithiolrwydd swyddogaethau democrataidd y Cyngor, ond ni fu'r cynnydd hwn yn ddidrafferth. Megis dechrau y mae'r gwaith o fynd i'r afael â rhai meysydd allweddol eraill. Mae ymyriadau yn cymryd amser swyddogion ac yn llesteirio diben gwirioneddol y Cyngor, sef sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion Ynys Môn, yn unol â pholisïau a ddiffiniwyd yn glir. Ar adeg o gyfyngiadau ariannol llym, mae hyd yn oed yn bwysicach bod y Cyngor yn ddigon sefydlog i allu canolbwyntio'n glir ar y penderfyniadau anodd a wynebir ganddo.

**14** Felly dylai arweinwyr gwleidyddol ac uwch reolwyr y Cyngor ymfodloni rhywfaint yn y cynnydd a wnaed hyd yma, ond rhaid iddynt gydnabod bod y rhan fwyaf o'r agenda gwella heb ei gyflawni eto; mae angen profi'r newidiadau strwythurol a diwylliannol wrth wneud y penderfyniadau anodd sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r agenda hwnnw.

### Yn dilyn hanes hir o beidio â chael ei redeg yn briodol, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gyfarwyddyd yn 2009, gan benodi Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro i arwain ymateb y Cyngor a Bwrdd Adfer i fonitro ei gydymffurfiaeth

**15** Yn dilyn diffyg cyfathrebu ac ymddiriedaeth rhwng y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar y pryd, a hanes gwael o ran ymateb i argymhellion blaenorol, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol o'r Cyngor yn 2009. Canfu'r arolygiad bod gan y Cyngor hanes hir o gamweinyddu. Roedd adroddiad yr arolygiad yn cynnwys saith o argymhellion i'r Cyngor, yn ymwneud â materion llywodraethu hirsefydledig a gwendidau o ran trefniadau corfforaethol yr oedd y Cyngor wedi methu â mynd i'r afael â hwy dros lawer o flynyddoedd.

**16** O ganlyniad i'r arolygiad, a chan weithredu ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gyfarwyddyd i'r Cyngor ym mis Awst 2009. Bydd y cyfarwyddyd yn parhau mewn grym tan fis Medi 2011, ond gall y Gweinidog ei ymestyn neu ei gwtogi. Penodwyd Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro profiadol iawn ym mis Hydref a dechreuodd Bwrdd Adfer, a benodwyd gan y Gweinidog, ar y gwaith o fonitro cynnydd y Cyngor.

17 Ers 2 Hydref 2009, cyfarfu'r Bwrdd Adfer ar saith achlysur, gan gyflwyno adroddiad i'r Gweinidog ar ôl pob cyfarfod. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnal cyfweliadau unigol gyda bron pob cynghorydd, wedi arsylwi amryw o gyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau, ac wedi cynnal trafodaethau gydag uwch swyddogion. Cynrychiolwyd Swyddfa Archwilio Cymru ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Adfer fel sylwedydd. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith y Bwrdd, rydym wedi gwneud defnydd helaeth o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Bwrdd wrth lunio'r adroddiad hwn.

18 Ar 30 Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o drafodion ariannol a sefyllfa ariannol y Cyngor.

19 Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Roedd y Llythyr yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol cynharach a gwaith arall, a daeth i'r casgliad canlynol:

- bod adolygiadau o wasanaethau a threfniadau corfforaethol yn dangos bod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â llawer o wendidau sylweddol, a bod ganddo hanes gwael o ymateb i argymhellion rheoleiddwyr allanol;

- bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol ac adrodd arnynt ond nid oedd ganddo drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09.

## Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r agenda ar gyfer newid a osodwyd yn allanol, ac mae'n gosod y seiliau ar gyfer gwella ond erys cryn dipyn o waith i'w gyflawni

20 Gyda chefnogaeth y Bwrdd Adfer a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r holl argymhellion a wnaed yn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 mewn modd systematig. Yn benodol:

- adferwyd y gydberthynas waith rhwng y Pwyllgor Gwaith ac uwch reolwyr;

- mae gwelliannau gweithdrefnol i waith y Pwyllgor Cynllunio wedi gwella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau.

21 Mae'r gwaith o fynd i'r afael ag argymhellion eraill yn mynd rhagddo'n dda; mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol, ond mae'n rhy gynnar i werthuso effaith a chynaliadwyedd y gwaith. Yn ogystal, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi dadansoddi'r materion a wynebir gan y Cyngor ac mae wedi nodi rhaglen glir o flaenoriaethau i wella trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor.

22 Mae ymddygiad cynghorwyr mewn cyfarfodydd wedi gwella ar y cyfan, gyda llai o elyniaeth bersonol nag yn y gorffennol. Mae Arweinwyr Grŵp wedi derbyn cyfrifoldeb am ymddygiad eu haelodau, ac maent wedi gweithredu'n gadarn pan fod angen. Mae gweithrediadau Arweinwyr Grŵp yn cyflwyno elfen angenrheidiol o hunan-reoleiddio i'r ffordd y cynhelir busnes y Cyngor.



23 Bu newidiadau cyfansoddiadol hefyd, yn cynnwys sefydlu strwythur pwyllgor craffu newydd a chytundeb y dylai grwpiau'r wrthblaid gadeirio rhai pwyllgorau penodol. Mae gan y cytundeb hwn y potensial i leihau'r diwylliant 'trechaf treisied' a oedd wedi tueddu i ymyleiddio grwpiau'r wrthblaid yn y gorffennol, ac a gyfrannodd at y newidiadau mynych mewn teyrngarwch gwleidyddol er mwyn ennill grym.

24 Hefyd cafwyd gwelliannau o ran cynllunio busnes ac o ran dechrau egluro blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, erys cryn dipyn i'w wneud o hyd i gwblhau'r broses o roi'r cynlluniau ar waith ac o ran ymgorffori'r gwelliannau hyn i waith y Cyngor o ddydd i ddydd. Gwnaed cryn dipyn o waith paratoi, er enghraifft, er mwyn gwella rolau swyddogaethau corfforaethol megis Adnoddau Dynol a gwella effeithiolrwydd uwch reolwyr o ran eu harweinyddiaeth gorfforaethol. Mae cynlluniau pellach ar waith. Fodd bynnag, mae gwaith o'r fath yn galw am newid diwylliannol sylweddol, ac felly mae'n rhy gynnar i werthuso ei effaith.

## Mae tensiynau rhwng cynghorwyr yn parhau i ddod i'r amlwg, ac mae'n rhy gynnar i fod yn hyderus y bydd y Cyngor yn llwyddo i wella mewn modd cynaliadwy

25 Er y gwnaed cynnydd o ran gwella'r ffordd y mae cynghorwyr yn cyflawni eu rolau, cafwyd hefyd broblemau sydd wedi tanseilio swyddogaeth Arweinydd y Cyngor. At ei gilydd, ymdriniwyd yn gadarn â'r problemau hyn, gyda dau gynghorydd yn cael eu diarddel o'r hyn a oedd, tan fis Mehefin 2010, yn grŵp yr Arweinydd. Mae Arweinwyr Grŵp eraill wedi cefnogi'r Arweinydd a'r rhaglen wella drwy gytuno i beidio â derbyn y cynghorwyr a gafodd eu diarddel fel aelodau o'u grwpiau.

26 Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2010, ymrannodd y grŵp gwleidyddol mwyaf o fewn y Cyngor yn ddau grŵp, gyda dim ond lleiafrif bach o'i aelodau'n parhau'n deyrngar i'r Arweinydd. Mae'r rhaniad hwn yn awgrymu nad yw problemau'r gorffennol wedi'u datrys eto. Mae 36 o'r 40 o aelodau'r Cyngor bellach yn ffurfio chwe grŵp gwleidyddol, gyda'r pedwar aelod sy'n weddill heb ymlyniad i unrhyw un o'r grwpiau. Mae pedwar o'r chwe grŵp bellach yn cynnwys carfanau croes o gynghorwyr annibynnol.

27 Ffurfiwyd cynghrair rheoli newydd o bedwar grŵp ond, gyda dim ond 20 o aelodau, mae'r gynghrair wrth reswm yn fregus, yn enwedig o ystyried hanes y Cyngor o newidiadau mynych o ran teyrngarwch gwleidyddol er mwyn ceisio ennill grym. Er ei fod wedi cadw cefnogaeth grwpiau eraill o fewn y gynghrair a'i fod yn parhau yn weithredol, dim ond pedwar aelod sydd yng ngrŵp yr Arweinydd erbyn hyn.

28 Mae'r Telerau Ymgysylltu ar gyfer y gynghrair wleidyddol newydd yn nodi mai ei hegwyddor allweddol yw dymuniad i leihau'r math o ymddygiad sydd wedi llesteirio cynnydd y Cyngor yn y gorffennol. Er mai prin yw'r newid arfaethedig o ran cyfeiriad strategol y Cyngor, mae'r Telerau Ymgysylltu'n canolbwyntio'n gryf ar y gofyniad i'w aelodau roi pob problem hanesyddol i'r neilltu ac i ynysu'r sawl sydd wedi rhwystro cynnydd yn rheolaidd a, thrwy eu gweithredodd, sydd wedi gwrthod derbyn ffyrdd newydd o weithio. Mae'r Telerau Ymgysylltu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r gynghrair gondemnio dau gynghorydd a enwyd yn gadarn ac yn gyhoeddus drwy gefnogi'r Cyngor wrth hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am yr aelodau hyn oherwydd achosion honedig o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau.

29 Mae'r Telerau Ymgysylltu hyn wedi profi'n ddadleuol. Nododd aelodau grwpiau'r gwrthbleidiau eu bod yn amharod i fynegi barn sy'n groes i farn y Pwyllgor Gwaith rhag ofn iddynt gael eu gwarthnodi fel rhai sy'n achosi trafferth. Mae arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau wedi cael sicrwydd nad rhwystro dadl wleidyddol ddilys yw nod y Telerau Ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fod yn hyderus bod y trefniadau gwleidyddol newydd hyn yn gynaliadwy. Mae goruchwyliaeth barhaus y Bwrdd Adfer a'r posibilrwydd y ceir ymyriad Gweinidogol pellach yn hybu sefydlogrwydd ond, heb y rhain, ceir risg sylweddol o newidiadau gwleidyddol pellach, a fyddai'n cymryd mwy o amser swyddogion ac yn tynnu sylw'r Cyngor oddi ar y nod o fynd i'r afael â'r problemau a wynebir ganddo o ran moderneiddio ei wasanaethau.



# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae arweinyddiaeth gadarn yn dechrau gwella'r trefniadau llywodraethu, ond erys cryn dipyn o waith i weithredu cynlluniau ac yna ymgorffori'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor

**Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, gyda chefnogaeth y Bwrdd Adfer, yn hybu gwelliannau strwythurol a diwylliannol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor, ond mae'n rhy gynnar i lunio barn ar b'un a fydd y gwelliannau hyn yn gynaliadwy**

30 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi dod â chryn dipyn o wybodaeth a phrofiad i'r rôl. Fe'i dewiswyd gan y Gweinidog ac fe'i penodwyd gan y Cyngor, a chanfyddir ei fod yn annibynnol, ac felly'n rhydd o ddylanwad hanes trafferthus y Cyngor. Mae cynghorwyr ac uwch swyddogion fel ei gilydd wedi cydnabod ei rôl gadarnhaol o ran dechrau proses adfer y Cyngor.

31 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi dangos craffter a chadernid yn ei ddull o fynd i'r afael â'i waith. Er ei fod yn dilyn argymhellion Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009, mae wedi ychwanegu ei ddadansoddiad ei hun o'r problemau a wynebir gan y Cyngor, ac mae wedi nodi rhaglen glir o flaenoriaethau i wella trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor.

32 Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun adfer i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, ac mae wedi gweithredu pump o saith o argymhellion adroddiad yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn llawn. Fodd bynnag, mae'r arweinyddiaeth yn cydnabod bod angen gwneud cryn dipyn yn fwy o waith er mwyn sicrhau y caiff y cynigion a ddatblygwyd mewn ymateb i'r argymhellion eu gweithredu'n llawn mewn ffordd sy'n cael effaith barhaol, er bod llawer o'r meini adeiladu pwysig wedi'u gosod eisoes. Mae'n bosibl bod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer rhai agweddau yn or-uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r gwaith o wella rôl arweinyddiaeth gorfforaethol y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi dechrau, gyda goblygiadau pwysig o ran rolau rheolwyr gwasanaethau eraill.

33 Wrth ddechrau gweithredu'r cynllun adfer, y brif flaenoriaeth fu'r angen i wella effeithiolrwydd y cynghorwyr wrth iddynt gynnal eu busnes. Yn briodol, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro wedi nodi'r angen i gynghorwyr eu hunain gymryd perchenogaeth o'r broses hon er mwyn cynnal y gwelliant, a bod rôl arweinwyr y grwpiau gwleidyddol o ran cynnal momentwm yn allweddol i lwyddiant. Wrth wneud hynny, mae wedi rhoi cefnogaeth gadarn i Arweinydd y Cyngor, sy'n gymharol ddibrofiad. Gyda'r gefnogaeth hon, mae'r Arweinydd wedi cymryd camau cadarn yn erbyn dau o aelodau ei grŵp, ac wedi ennill cefnogaeth arweinwyr grwpiau eraill i helpu i orfodi ei benderfyniadau. Mae cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer penderfyniadau anodd o'r fath yn arwydd o gynnydd sylweddol o ran datblygu Cyngor sydd â'r gallu i reoli ymddygiad ei aelodau ei hun.

34 Mae'r gwelliant o ran disgyblaeth y grŵp wedi cyfrannu at safonau ymddygiad gwell, a thrafodaeth o ansawdd gwell yn siambr y Cyngor, hyd yn oed ar faterion a allai fod yn ddadleuol megis cytuno ar y gyllideb. Fodd bynnag, erys rhywfaint o ddrwgdeimlad ymhlith aelodau'r wrthblaid. Mae'r drwgdeimlad hwn wedi cyfrannu at hollti'r grŵp gwleidyddol mwyaf, gyda dim ond lleiafrif bach yn parhau'n deyrngar i'r Arweinydd. O ganlyniad, ffurfiwyd cynghrair reoli newydd ond bregus, fel y nodwyd yn Rhan 1 o'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol hwn. Felly erys amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y gwelliannau cychwynnol.

35 Mae aelodau'r Bwrdd Adfer wedi cyfweld â bron pob cynghorydd a chanfuwyd bod llawer o'r safbwyntiau a'r canfyddiadau a oedd yn gyffredin ar adeg yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn parhau. Mae'r rhan fwyaf o'r cynghorwyr yn parhau i fod o'r farn mai eu prif rôl yw cynrychioli eu wardiau, yn hytrach na chymryd golwg ehangach a mwy strategol o'r ynys gyfan. Ar adeg y cyfweliadau, roedd canfyddiad eang yn parhau bod cynghorwyr yn cael eu dewis ar gyfer swyddi cyfrifol a'r lwfansau cysylltiedig ar sail 'gras a ffafr' a heb ystyriaeth briodol o'u sgiliau a'u profiad. Mae'r penderfyniad ers hynny i benodi aelodau'r wrthblaid yn gadeiryddion ar rai o'r pwyllgorau craffu yn cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â'r canfyddiad hwn.

36 Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro nad oedd y broses sefydlu ar gyfer cynghorwyr newydd yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw llawer o gynghorwyr wedi meddu ar ddealltwriaeth lawn o weithdrefnau pwyllgorau a rheolau sefydlog, a bu sgiliau cadeirio'n wan yn aml. Gwaethygwyd y gwendidau hyn ar adegau gan amharodrwydd o ran swyddogion i ymyrryd fel y bo angen er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn dilyn protocolau gweithdrefnol.

37 Yn ogystal â gorfodi gwell disgyblaeth, mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno ar newidiadau cyfansoddiadol a strwythurol sydd â'r nod o wella'r rôl graffu, a fu'n wan yn y gorffennol, a lleihau'r diwylliant 'trechaf treisied' a fu mor amlwg. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar strwythur pwyllgor craffu newydd, gan gynyddu nifer y pwyllgorau o dri i bump. Mae'r penderfyniad i benodi Rheolwr Craffu wedi ychwanegu adnodd a momentwm gwerthfawr i'r broses o ddatblygu craffu, ac i ddealltwriaeth aelodau pwyllgorau o'r rôl.

38 Mae'r camau pellach i wella hunan-reoleiddio gan gynghorwyr a gwell llywodraethu yn cynnwys:

- Cyflwyno rhag-gyfarfodydd cyn cyfarfodydd y Cyngor, lle mae Arweinwyr grwpiau yn cyfarfod â'r Cadeirydd ymlaen llaw i ystyried y ffordd orau o reoli eitemau sensitif ar yr agenda heb niweidio enw da'r Cyngor.
- Rôl fwy blaenllaw i'r Pwyllgor Safonau yn y broses o ddatblygu aelodau. Mae Arweinwyr grwpiau bellach wedi enwebu cynghorwyr i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau, gan sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu'n unol â'r Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru.
- Cyflwyno cyfarfodydd Arweinwyr Grwpiau, wedi'u cadeirio gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, fel ffordd o wella llif gwybodaeth ac, o ganlyniad, trefniadau rheoli cyfarfodydd pwyllgorau.



39 Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith hirdymor y newidiadau hyn, ond mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu rhaglen ddwys ar gyfer datblygu aelodau sy'n cynnwys elfen benodol a gynlluniwyd i hybu craffu mwy effeithiol. Bwriedir cynnal mwy o hyfforddiant, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu protocolau pellach i lywio'r ffyrdd y mae cynghorwyr yn ymgymryd â rolau allweddol. Bu presenoldeb Cynghorwyr mewn sesiynau hyfforddi yn dda hyd yma, a bu eu hadborth yn gadarnhaol. Yn sgîl yr hyfforddiant hwn, awgrymwn y dylai aelodau etholedig ddatblygu a chytuno ar fframwaith y gellid ei ddefnyddio i asesu perfformiad pob cynghorydd bob blwyddyn. Dylai fframwaith o'r fath ganolbwyntio'n bennaf ar waith cynghorwyr fel aelodau pwyllgorau ac o ran cyflawni unrhyw gyfrifoldebau penodol sydd ganddynt yn hytrach na'u rolau fel aelodau wardiau.

## Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda, ar y cyfan, gyda phartneriaid i ddarparu ystod eang o wasanaethau, ond prin yw'r wybodaeth sydd ganddo am gostau a manteision gweithio mewn partneriaeth

40 Mae gan y Cyngor hanes hir o weithio gydag eraill er mwyn darparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chyngor Gwynedd gyfagos ers 1996 i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion helaeth a gwasanaethau i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio contractwyr sector preifat i ddarparu ei wasanaeth prydau ysgol a'i wasanaeth casglu gwastraff.

41 Mae enghreifftiau mwy diweddar o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys gwaith y Cyngor fel rhan o Bartneriaeth Wastraff Ranbarthol Gogledd Cymru, sydd wedi sicrhau cyllid sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad i gaffael cyfleuster i drin gwastraff gweddilliol, gan felly wella'r rhagolygon o gyflawni targedau cenedlaethol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i gydweithio â Chyngor Gwynedd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

42 Mae'r Cyngor yn chwarae rhan lawn yng ngwaith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn sy'n dechrau gwneud cyfraniad defnyddiol, ar ôl dechrau araf, i'w flaenoriaeth o fynd i'r afael â thlodi. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud cyfraniad llawn i waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n darparu arweinyddiaeth gref o ran cyflawni ei weledigaeth o fwy o gydweithio rhwng pob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, neu is-grwpiau o fewn yr awdurdodau hynny.

43 Mae'r cydberthnasau â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Ambiwlans yn gadarnhaol, a cheir parodrwydd i ddatblygu trefniadau cydweithio pellach. Er bod y broses ddiweddar o ad-drefnu'r Byrddau Iechyd Lleol wedi achosi rhywfaint o ansicrwydd yn y cydberthnasau â chynghorau, ceir enghreifftiau da o gydweithio ar y 'rheng flaen' rhwng y gwasanaeth iechyd ac unig ysgol arbennig y Cyngor.

44 Er gwaethaf yr enghreifftiau niferus o weithio mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn tueddu i hybu partneriaethau ar lefel adrannol yn hytrach nag ar lefel gorfforaethol. Prin yw'r ddealltwriaeth gyfunol o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni â'i bartneriaid, ac o gostau a manteision bod yn rhan o'r partneriaethau hynny.

## Nid yw fframwaith polisi a strategaeth y Cyngor yn ddigon clir a chyson eto i gefnogi proses gydlynol o gynllunio staff ac adnoddau, a chyflwyno gwell prosesau busnes

**45** Ers llawer o flynyddoedd mae'r Cyngor wedi methu â sefydlu set glir a chyson o bolisïau a strategaethau sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau dinasyddion ac sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau. Yn yr un modd, prin yw'r ymdeimlad o gyfeiriad a geir yn y Strategaeth Gymunedol.

**46** Ym mis Ionawr a Chwefror 2010 cynhaliodd y Pwyllgor Gwaith a oedd mewn grym ar y pryd nifer o sioeau teithiol ar draws yr ynys i ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'r nod o sefydlu cyfres o flaenoriaethau corfforaethol mewn hinsawdd o lymder ariannol. Trefnwyd y digwyddiadau hyn yn dda, a chafwyd presenoldeb gweddol dda mewn rhai ohonynt. Yn dilyn hynny, mabwysiadodd y Cyngor bum blaenoriaeth strategol, sef:

- gwella enw da'r Cyngor a'r ynys;
- diogelu a datblygu economi'r ynys;
- adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy;
- hybu cymunedau iach, diogel a theg;
- sicrhau gwasanaethau effeithiol a fforddiadwy.

**47** Mae'r blaenoriaethau strategol hyn yn cwmpasu Cynllun Adfer y Cyngor a'i raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy, sy'n mynd i'r afael â'r angen i sicrhau lleihad amcangyfrifedig o £10 miliwn mewn gwariant dros y tair blynedd nesaf. Fel sail i'r pum blaenoriaeth, mae'r Cyngor wedi diffinio cyfanswm o 24 o amcanion ag iddynt ddiffiniadau eang.

**48** Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau strategol a'u hamcanion cysylltiedig yn darparu cyfeiriad cyffredinol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon penodol eto nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau i lywio'r gwaith o gynllunio staff ac adnoddau yn yr hinsawdd ariannol heriol a wynebir.

**49** Mae cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o bennu blaenoriaethau'r Cyngor yn gam ymlaen, ond mae cryn dipyn i'w wneud o hyd i gynnwys dinasyddion fwy yng ngwaith y Cyngor. Mae canlyniadau etholiadau'n awgrymu fod gan gyhoedd yr ynys, fel nifer o'i chynghorwyr, farn draddodiadol o lywodraeth leol. Dim ond dwy fenyw sydd ymhlith 40 aelod y Cyngor. Mae goruchafiaeth cynghorwyr annibynnol wedi'u trefnu'n nifer cynyddol o garfanau bach yn llesteirio datblygiad barn fwy modern, gan mai prin yw'r wybodaeth sydd gan etholwyr o'r hyn y mae'r grwpiau amrywiol yn ei gynrychioli ar adeg etholiadau neu rhwng etholiadau. Ymddengys fod etholwyr yn gwobrwyo'r cynghorwyr hynny sydd â hanes o ddarparu buddiannau i'w wardiau ac i unigolion o fewn y wardiau hynny. Felly mae gan y Cyngor waith i'w wneud i hyrwyddo perthnasedd a phwysigrwydd llywodraeth leol a rôl y cynghorydd modern, ac i atgyfnerthu'r ffaith na ddylid defnyddio cynghorwyr yn lle'r dulliau ffurfiol o ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

**50** Llesteirir cyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith y Cyngor gan y ffaith nad yw'n cyhoeddi agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau ar ei wefan fel mater o drefn. Felly nid yw'n hawdd i aelodau'r cyhoedd gael gwybod ymlaen llaw pryd y caiff materion sydd o ddiddordeb iddynt eu trafod, nac i ystyried y wybodaeth a geir ym mhapurau ategol y drafodaeth ymlaen llaw. Er bod y Cyngor yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd, mae llawer ohonynt yn cynnwys manylion di-angen. At hynny, mae'n cymryd yn rhy hir i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ar wefan y Cyngor.



51 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella agweddau gweithdrefnol ar y ffordd y mae'n penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, tanseilir y cynnydd hwn gan ddiffyg fframwaith polisi cynllunio clir. Nid oes gan y Cyngor Gynllun Datblygu Unedol na Chynllun Datblygu Lleol ar waith, ac felly mae'n dibynnu ar amryw o hen bolisïau fel sail i'w broses o wneud penderfyniadau. Mae'r cytundeb diweddar, a gefnogir gan aelod o'r Bwrdd Adfer, i gydweithio â Chyngor Gwynedd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig ateb posibl, gan oresgyn gallu ac adnoddau cyfyngedig y Cyngor i ymgymryd â gwaith o'r fath ar ei ben ei hun.

52 Mae gan y Cyngor ystod gynhwysfawr o bolisïau diogelwch gwybodaeth sy'n cwmpasu ei systemau TG, ond mae'r rhain yn tueddu i anwybyddu meysydd risg eraill. Nid oes strategaeth rheoli gwybodaeth gyffredin. Fel mewn llawer o gynghorau, nid yw protocolau a pholisïau llywodraethu gwybodaeth wedi'u hymgorffori'n ddigon da i bob gwasanaeth.

53 Daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion adrodd ariannol yn 2008-09 ond nad oedd ganddo drefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau. Oherwydd y cyfyngiadau ariannol a wynebir, mae'n amlwg ei fod yn bwysig iawn y dylai'r Cyngor sicrhau gwerth am arian o'i ddefnydd o adnoddau, a byddwn yn cyflwyno adroddiad a fydd yn nodi casgliad diweddaraf yr Archwilydd Penodedig ym mis Tachwedd 2010.

54 Mae lefel y cronfeydd ariannol wrth gefn heb eu dyrannu yn isel, ond nid yn beryglus o isel. Mae'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn yn 2009-10, setliadau ariannu is yn y dyfodol, a'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â goblygiadau gwerthuso swyddi ar draws y Cyngor ac o ran gweithredu Cytundeb Statws Sengl yn gosod pwysau pellach ar y cronfeydd wrth gefn.

55 Fel rhan o'i waith o ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddechrau 2010, holodd y Cyngor farn dinasyddion ynglŷn â'i flaenoriaethau cyllidebol. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi lansio'r rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy ac o ganlyniad, mae ganddo gwell eglurder o ran ei flaenoriaethau gwario yn y dyfodol, a gwell cysylltiadau rhwng y rhain a'i flaenoriaethau gwella. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi nodi £400,000 yn ei gyllideb ar gyfer 2010-11 i atgyfnerthu gallu ac adnoddau corfforaethol, sy'n unol ag argymhellion yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol.

56 Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol nid yw blaenoriaethau'r Cyngor wedi'u cyfleu'n ddigon manwl i lywio't broses o gynllunio adnoddau. Mae templed cynllunio busnes newydd nawr yn ceisio nodi'r holl weithgarwch o fewn pob gwasanaeth mewn ymdrech i ddarparu gwell gwybodaeth reoli i danategu penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb yn y dyfodol. Mae hyn yn ymdrech a drefnwyd yn dda gan arweinwyr y Cyngor i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r busnes gyda'r nod o ganfod llinell sylfaen ar gyfer cynllunio ariannol yn y dyfodol.

57 Mae'r Cyngor bellach wedi cytuno ar gynllun rheoli asedau corfforaethol yn dilyn argymhellion gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn dros nifer o flynyddoedd. Mae hwn yn gam pwysig ymlaen. Fodd bynnag mae'r cynllun yn cydnabod nad yw ei sail wybodaeth am gyflwr asedau'r Cyngor yn gyfoes ac nad oes ganddo bersbectif digonol sy'n seiliedig ar wasanaethau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwendidau hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, y diffyg eglurder sydd wedi bodoli ers llawer o flynyddoedd rhwng gwasanaethau unigol a gwasanaethau eiddo corfforaethol o ran y cyfrifoldeb am nodi a blaenoriaethu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw portffolio eiddo'r Cyngor.

58 Er gwaethaf gwelliannau diweddar i wefan y Cyngor, mae gormod o'r cynnwys yn hen ac yn anodd i'w ddefnyddio i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau neu wneud sylwadau neu gwynion ar-lein. Mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i wella'i wefan fel blaenoriaeth gorfforaethol.

59 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Gwaith, wedi cyflwyno nifer o newidiadau sydd â'r nod o wella prosesau busnes y Cyngor. Yn arbennig, mae wedi atgyfnerthu gallu ac adnoddau rheoli corfforaethol y Cyngor er mwyn cyflwyno dull safonol o gynllunio busnes ar draws pob gwasanaeth. Yn wahanol i ymdrechion blaenorol, ceir disgwyliadau clir y dylid dilyn y templed cynllunio newydd, ac mae trefniadau ar waith i adolygu a herio'r cynlluniau drafft cyn cynhyrchu'r fersiwn terfynol. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu i sicrhau bod cynlluniau busnes yn fwy tebygol o fod yn gynhwysfawr ac o safon dderbyniol. Caiff deiliaid portffolio perthnasol eu cynnwys yn briodol yn y broses.

60 Mae perfformiad a rheoli risg yn feysydd allweddol i'w gwella o hyd, ar ôl iddynt gael eu hamlygu yn y ddau Lythyr Blynyddol diwethaf ac yn adroddiad yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol. Prin yw dealltwriaeth Cynghorwyr o'r data sy'n cefnogi eu canfyddiadau o ansawdd gwasanaethau. Bu diffyg arweiniad corfforaethol o ran pennu targedau a bu'r trefniadau i gefnogi ansawdd data yn wan. Er bod cynlluniau cadarn i wella, nid oes cofrestr risg gorfforaethol ac nid yw egwyddorion rheoli risg wedi'u hymgorffori eto.

61 Mae'r fframwaith cynllunio busnes newydd yn darparu sail ar gyfer gwella o ran rheoli perfformiad, gyda chynlluniau wedi'u cysylltu â'r blaenoriaethau corfforaethol newydd a bennwyd. Penodwyd Rheolwr Rhaglen Dros Dro a bwriedir cynyddu gallu ac adnoddau rheoli prosiect y Cyngor. Bu rheoli prosiect yn faes gwan yn y gorffennol, a adlewyrchwyd yn arafwch cynnydd gwaith sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o wasanaethau megis cynllunio rheoli asedau a chynllunio'r gweithlu.

### Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei drefniadau rheoli pobl yn wan ac yn llesteirio gwelliannau, ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater

62 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi wynebu problemau hirsefydledig o ran Adnoddau Dynol. Er gwaethaf dechrau'n gynnar ar y gwaith o ddatblygu Cytundeb Statws Sengl, mae'r broses yn parhau i fod yn 'waith sy'n mynd rhagddo'. Prin fu'r cynnydd o ran cynllunio'r gweithlu. Bu'r elfen staff o reoli perfformiad yn wan, gyda dull anghyson o arfarnu gan wasanaethau a rheolwyr gwahanol.



63 Ers i'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro gyrraedd, bu newidiadau o ran trefniadau rheoli'r swyddogaeth Adnoddau Dynol. Mae rôl cynghorwyr yn y broses o benodi staff a phenderfynu p'un a ddylid llenwi swyddi gwag hefyd yn gliriach ac yn fwy priodol nag yn y gorffennol.

64 Hyd yma bu'r gwaith o ddatblygu gallu swyddogion yn flaenoriaeth is na'r angen i ddatblygu aelodau. Fodd bynnag, mae gwaith manwl bellach yn mynd rhagddo i ddiffinio rôl y gwasanaeth Adnoddau Dynol a rolau rheolwyr mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol yn well. Mae'r cynlluniau'n cynnwys datblygu fframwaith cymhwysedd a threfniadau arfarnu perfformiad newydd ar draws gweithlu'r Cyngor. Mae gwaith o'r fath yn bwysig o ran datblygu cadernid y Cyngor yn erbyn y posibilrwydd y gallai aelodau etholedig ddychwelyd i wleidyddiaeth bersonoliaeth fewnol yn y dyfodol.